OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 755

## Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013

**Dileu Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

**8.**—(1) Mae CCGC wedi ei ddileu.

(2) Gan hynny, mae'r canlynol wedi eu diddymu—

(a) adrannau 128 i 134 o Ddeddf 1990(**1**);

(b) Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990(**2**);

(c) Rhan 1 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(**3**).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Ergl. 8 mewn grym ar 1.4.2013, gweler **ergl. 1(2)**

(**1**) 1990 p. 43. Diwygiwyd adran 130 gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37), Atodlen 15, paragraff 11. Amnewidiwyd adrannau 128 a 129, diwygiwyd adrannau 130, 131, 132 a 134, a diddymwyd adran 133 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 117 i 123. Gwnaed diwygiadau pellach i adrannau 128, 132 a 134 gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23), adran 313.

(**2**) Cafwyd nifer o ddiwygiadau i Atodlenni 6, 8 a 9. Diwygiwyd yr Atodlenni hynny, a diddymwyd Atodlen 7, gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16), Atodlen 11, paragraffau 126 a 127, ac Atodlen 12. O ran darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed mewn cysylltiad â diddymu Atodlenni 6, 8 a 9 i Ddeddf 1990, *gweler* Atodlen 7 i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) 1949 p. 97. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf 1990, Atodlen 8, paragraff 1(2). Diwygiwyd adrannau 1 a 3 gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Atodlen 11, paragraffau 7 ac 8. Diddymwyd adrannau 2 a 4 gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69), Atodlen 17, Rhan 2.

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2013.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, Adran 8.